ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

# Datganiad Ystadegol Cyntaf


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Awdurdodau Lleol (yn defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen)

**23 Mawrth 2017**
**SFR 30/2017**

Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu 10 y cant rhwng 2014 a 2039, yn ôl amcanestyniadau. Rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd, sef 32 y cant, ac yna yn Abertawe (sef 17 y cant). Powys yw'r unig awdurdod lleol lle rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer yr aelwydydd (sef gostyngiad o ddau y cant). Yr amcanestyniadau a geir yma yw'r prif amcanestyniadau. Caiff nifer o senarios eraill eu cynhyrchu i ddangos yr amrywiadau posibl yn yr amcanestyniadau.

**Siart 1: Amcanestyniad o'r newid canrannol mewn aelwydydd rhwng 2014 a 2039**




## Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen, ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039.

Maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth sy'n defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Medi 2016.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn rhoi amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd a'r mathau o aelwydydd.

Maent yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch tai a amlinellir yn y Cyfrifiadau.

Yn gyffredinol, mae'r tybiaethau'n ymwneud â nifer aelodau'r gwahanol fathau o aelwydydd.


## Yn y datganiad hwn

Amcanestyniadau yn ôl y math o aelwyd 6
Amcanestyniadau yn ôl awdurdod lleol 8
Maint cyfartalog aelwydydd 9
Amcanestyniadau aelwydydd: Amrywolion 10
Cymharu ag amcanestyniadau aelwydydd blaenorol 12
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd 13

Ystadegydd: Alan Jackson ~ 0300 025 5050 ~ ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

**Ffigur 1: Mae'r ffeithlun isod yn dangos amcanestyniad o'r newid yn y mathau o aelwydydd rhwng 2014 a 2039**



## Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno canlyniadau Amcanestyniadau Aelwydydd Cymru sy'n defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrifon ynghylch niferoedd aelwydydd yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a thybiaethau ynghylch cyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar dueddiadau blaenorol.

Mae'r amcanestyniadau'n rhoi amcangyfrif o nifer a maint yr aelwydydd; ac maent yn tybio bod tueddiadau blaenorol o ran genedigaethau, marwolaethau a mudo (hynny yw, pobl yn symud i mewn ac allan o ardal) yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gaiff eu cynhyrchu yn y modd hwn yn ystyried effeithiau polisïau llywodraeth leol neu ganolog ar lefelau'r boblogaeth yn y dyfodol a chyfansoddiad aelwydydd, na newidiadau o ran ffordd o fyw. Hynny yw, nid yw'r amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol yn rhagolygon sy'n seiliedig ar bolisïau; maent yn dangos yr hyn a ddisgwylir i ddigwydd os bydd tueddiadau presennol yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau hyn yn defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen ac yn seiliedig ar dueddiadau. Maent ar gyfer y cyfnod 25 mlynedd o 2014 i 2039. Oherwydd eu bod yn seiliedig ar dueddiadau, maent yn mynd yn llai sicr po fwyaf maent yn edrych ymlaen. Maent yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn ar gyfer 2014. Mae'r rhan fwyaf o'r datganiad hwn yn seiliedig ar y prif amcanestyniadau. I ddangos yr ansicrwydd ynghylch yr amcanestyniadau ar gyfer awdurdodau lleol, gellir cynhyrchu amcanestyniadau ar sail amrywiolion yn ogystal â'r prif amcanestyniad. Mae'r amcanestyniadau ar sail amrywiolion yn dangos sut y gall amrywiadau mewn tybiaethau ynghylch ffrwythlondeb, cyfradd marwolaethau, a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau. Dangosir yr amcanestyniadau ar sail amrywolion yn Nhabl 4.

Mae'r amcanestyniadau'n defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru a oedd yn defnyddio 2011 fel blwyddyn sylfaen (y mae eu manylion i'w gweld yn yr adran Gwybodaeth am Ansawdd ar ddiwedd yr adroddiad). Defnyddir amcanestyniadau aelwydydd i gynllunio gwasanaethau a gyflenwir, i amcangyfrif yr angen am wasanaethau yn y dyfodol, ac i nodi tueddiadau o ran poblogaeth sy'n rhan o'r cyd-destun ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol; ac yn enwedig o ran cynllunio ym maes tai.

Dyma'r diffiniad o aelwyd:


- Un person yn byw ar ei ben ei hun, neu
- Grŵp o bobl (heb fod yn perthyn i'w gilydd, o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad, sy'n rhannu cyfleusterau coginio, ac ystafell fyw neu lolfa neu fan bwyta.

Mae hyn yn cynnwys:


- Unedau llety cysgodol mewn sefydliad lle mae gan 50 y cant neu ragor eu cegin eu hunain (p'un a oes cyfleusterau cymunol eraill ai peidio)
- Pob person sy'n byw mewn carafán ar unrhyw fath o safle sy'n breswylfa arferol iddynt. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw un sydd heb breswylfa arall mewn man arall yn y DU.

## Crynodeb

**Ffigur 2: Mae'r ffigur hwn yn dangos y newid o ran nifer yr aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd rhwng blwyddyn sylfaen a blwyddyn olaf yr amcanestyniad**




**Siart 1: Amcangyfrifon ac amcanestyniadau aelwydydd, Cymru, 2004 i 2039**



Yng Nghymru:

- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu tua 140,000 i 1.47 miliwn erbyn 2039 (hynny yw, cynnydd o 10.5 y cant).
- Rhagwelir y bydd bron dwy allan o bob tair aelwyd yn cynnwys un neu ddau berson heb blant yn unig.
- Aelwyd un person yw'r math mwyaf cyffredin o aelwyd dros holl gyfnod yr amcanestyniad, a rhagwelir y bydd cynnydd o 27 y cant yn y math hwn o aelwyd erbyn 2039.
- Rhagwelir y bydd aelwydydd un person yn cynyddu o fod yn 31 y cant o'r holl aelwydydd i fod yn 36 y cant o'r holl aelwydydd.
- Rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd unig riant.
- Rhagwelir mai aelwydydd sy'n cynnwys pump neu ragor o bobl heb blant fydd yn rhoi'r cynnydd canrannol mwyaf. Hyd yn oed wedyn, dim ond un allan o bob 100 o aelwydydd fyddai hynny.
- Nifer yr aelwydydd yng Nghaerdydd sy'n rhoi'r cynnydd canrannol mwyaf ar gyfer awdurdodau lleol (sef cynnydd o 32 y cant).
- Rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd yn Abertawe a 15 y cant yn Wrecsam.
- Rhagwelir y bydd gostyngiad o ddau y cant yn nifer yr aelwydydd ym Mhowys, ond mae'r amcanestyniadau'n dangos cynnydd hyd at 2026 ac yna gostyngiad wedi hynny hyd at 2039.
- Rhagwelir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn gostwng o 2.29 person ym mhob aelwyd i 2.17 person ym mhob aelwyd.
- Rhagwelir mai Merthyr Tudful fydd â'r ffigur uchaf ar gyfer maint cyfartalog aelwydydd, sef 2.34.
- Rhagwelir mai ym Mhowys y bydd maint cyfartalog aelwydydd ar ei isaf, sef 2.07, ac yna 2.08 yn Abertawe.

## Amcanestyniadau yn ôl y math o aelwyd

Mae Tabl 1 yn dangos y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu tua 140,000 (sef 10.5 y cant) i 1.47 miliwn erbyn 2039, yn ôl yr amcanestyniadau. Rhagwelir y bydd y cynnydd blynyddol cyfartalog yn 0.4 y cant, yn ôl yr amcanestyniadau. Disgwylir mai cynnydd yn y nifer o aelwydydd un person, ac aelwydydd dau berson heb blant, fydd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn. Rhagwelir y bydd bron dwy allan o bob tair aelwyd yn cynnwys un neu ddau berson heb blant yn unig.

Aelwyd un person yw'r math mwyaf cyffredin o aelwyd dros holl gyfnod yr amcanestyniad, a rhagwelir y bydd cynnydd o 27 y cant yn y math hwn o aelwyd erbyn 2039. Rhagwelir y bydd y math hwn o aelwyd yn cynyddu o fod yn 31 y cant o bob aelwyd i 36 y cant o bob aelwyd.

Aelwydydd sy'n cynnwys pump neu ragor o bobl heb blant sy'n rhoi'r cynnydd canrannol mwyaf. Hyd yn oed wedyn, dim ond un allan o bob 100 o aelwydydd fyddai hynny. Rhagwelir y bydd cyfanswm yr aelwydydd pum person yn cyfateb i un allan o bob 20 o aelwydydd (sydd ychydig yn uwch nag yn 2014).

Rhagwelir y bydd cynnydd canrannol mawr yn nifer yr aelwydydd sy'n cynnwys un oedolyn ac un plentyn yn unig (30.7 y cant), a nifer yr aelwydydd pedwar person heb blant (15.5 y cant).

Rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd unig riant. Er nad oes llawer o newid o ran aelwydydd unig riant fel canran o'r holl aelwydydd, rhagwelir y byddant yn ffurfio 7.1 y cant o'r holl aelwydydd yn 2039, sydd ychydig yn uwch nag yn 2014 (6.7 y cant).

Rhagwelir y bydd gostyngiadau bach yn nifer yr holl aelwydydd tri pherson ac yn nifer yr aelwydydd pedwar a phum person sy'n cynnwys dau neu ragor o oedolion gyda phlant.


**Tabl 1: Amcanestyniadau aelwydydd yn ôl math o aelwyd, yn seiliedig ar y Prif Amcanestyniadau Poblogaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru, 2014-2039**

Miloedd

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 | Newid 2014 i 2039 | Newid canrannol 2014 i 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 person | 416.0 | 440.5 | 466.9 | 489.1 | 510.2 | 528.1 | 112.1 | 27.0 |
| 2 berson (Dim plant) | 413.1 | 424.8 | 433.3 | 439.8 | 440.5 | 438.3 | 25.2 | 6.1 |
| 2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn) | 51.4 | 54.3 | 57.9 | 61.1 | 64.1 | 67.1 | 15.8 | 30.7 |
| 3 pherson (Dim plant) | 91.1 | 91.2 | 89.5 | 87.9 | 86.3 | 85.4 | -5.8 | - 6.3 |
| 3 pherson (2 oedolyn, 1 plentyn) | 86.4 | 84.9 | 84.5 | 83.8 | 83.2 | 82.9 | -3.5 | - 4.0 |
| 3 pherson (1 oedolyn, 2 blentyn) | 25.5 | 25.1 | 25.1 | 24.7 | 24.5 | 24.3 | -1.2 | - 4.8 |
| 4 person (Dim plant) | 32.0 | 33.3 | 33.6 | 34.5 | 35.6 | 36.9 | 5.0 | 15.5 |
| 4 person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 122.1 | 119.1 | 118.0 | 116.9 | 115.7 | 114.2 | -7.9 | - 6.5 |
| 4 person (1 oedolyn, 3 phlentyn) | 9.1 | 9.1 | 9.3 | 9.4 | 9.4 | 9.4 | 0.4 | 4.0 |
| 5+ person (Dim plant) | 10.5 | 11.5 | 12.0 | 13.1 | 14.1 | 14.9 | 4.5 | 42.6 |
| 5+ person (2+ oedolyn, 1+ plentyn) | 65.9 | 64.3 | 63.3 | 62.3 | 61.3 | 60.4 | -5.5 | - 8.4 |
| 5+ person (1 oedolyn, 4+ plentyn) | 3.4 | 3.5 | 3.6 | 3.6 | 3.7 | 3.7 | 0.3 | 8.9 |
| **Pob math o aelwyd** | **1,326.4** | **1,361.7** | **1,397.2** | **1,426.3** | **1,448.7** | **1,465.7** | **139.3** | **10.5** |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

**Siart 2: Newid canrannol ar gyfer mathau o aelwydydd yng Nghymru rhwng 2014 a 2039**



## Amcanestyniadau yn ôl awdurdod lleol

Mae Tabl 2 yn dangos mai yng Nghaerdydd fydd y cynnydd canrannol mwyaf yn nifer yr aelwydydd (sef cynnydd o 32 y cant). Yn 2014, roedd aelwydydd Caerdydd yn ffurfio 11 y cant o holl aelwydydd Cymru: rhagwelir y bydd y ffigur yn 13 y cant yn 2039.

Rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd yn Abertawe, 15 y cant yn Wrecsam, a rhwng 11 a 13 y cant yng Nghasnewydd, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf a Cheredigion.

Rhagwelir y bydd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd rhwng pump a deg y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin, Caerffili, a Sir Fynwy.

Rhagwelir y bydd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd tua phedwar y cant yng Nghastell-nedd Port Talbot, Conwy, Torfaen, Sir Ddinbych, a Sir Benfro.

Rhagwelir y bydd cynnydd bach yn nifer yr aelwydydd yn Ynys Môn, Blaenau Gwent, a Merthyr Tudful.

Rhagwelir y bydd gostyngiad o ddau y cant yn nifer yr aelwydydd ym Mhowys, ond rhagwelir y bydd cynnydd hyd at 2026 ac yna gostyngiad hyd at 2039.

**Tabl 2: Aelwydydd Amcanestynedig yn seiliedig ar Brif Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru, 2011-2036**

*Miloedd*

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 | Newid 2014 i 2039 | Newid canrannol 2014 i 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 31.0 | 31.3 | 31.5 | 31.6 | 31.5 | 31.3 | 0.4 | 1.2 |
| Gwynedd | 53.1 | 54.5 | 56.0 | 57.3 | 58.4 | 59.4 | 6.3 | 11.9 |
| Conwy | 52.0 | 52.7 | 53.5 | 54.1 | 54.3 | 54.3 | 2.3 | 4.5 |
| Sir Ddinbych | 41.2 | 41.8 | 42.4 | 42.8 | 43.0 | 42.9 | 1.7 | 4.1 |
| Sir y Fflint | 64.9 | 66.4 | 67.9 | 68.8 | 69.2 | 69.2 | 4.3 | 6.6 |
| Wrecsam | 58.3 | 60.3 | 62.3 | 64.2 | 65.8 | 67.1 | 8.8 | 15.0 |
| Powys | 59.0 | 59.7 | 60.0 | 59.8 | 58.9 | 57.6 | -1.37 | -2.33 |
| Ceredigion | 31.6 | 32.5 | 33.4 | 34.1 | 34.6 | 35.1 | 3.5 | 11.0 |
| Sir Benfro | 54.2 | 55.3 | 56.2 | 56.7 | 56.7 | 56.4 | 2.2 | 4.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 79.9 | 81.3 | 82.7 | 83.8 | 84.3 | 84.5 | 4.7 | 5.8 |
| Abertawe | 105.6 | 109.4 | 113.4 | 117.0 | 120.2 | 123.2 | 17.6 | 16.7 |
| Castell-nedd Port Talbot | 60.9 | 61.8 | 62.8 | 63.5 | 63.8 | 63.9 | 2.9 | 4.8 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 59.8 | 61.4 | 63.0 | 64.2 | 65.1 | 65.7 | 5.9 | 9.9 |
| Bro Morgannwg | 54.7 | 56.0 | 57.2 | 58.1 | 58.6 | 58.7 | 4.0 | 7.3 |
| Rhondda Cynon Taf | 101.9 | 104.7 | 107.6 | 110.1 | 112.3 | 114.0 | 12.1 | 11.9 |
| Merthyr Tudful | 24.4 | 24.6 | 24.8 | 24.8 | 24.7 | 24.5 | 0.1 | 0.3 |
| Caerffili | 75.5 | 77.0 | 78.4 | 79.3 | 79.8 | 79.9 | 4.4 | 5.8 |
| Blaenau Gwent | 30.7 | 31.0 | 31.3 | 31.4 | 31.2 | 31.0 | 0.3 | 1.0 |
| Tor-faen | 39.1 | 39.7 | 40.3 | 40.7 | 40.8 | 40.7 | 1.6 | 4.2 |
| Sir Fynwy | 39.0 | 39.9 | 40.7 | 41.2 | 41.3 | 41.0 | 2.0 | 5.2 |
| Casnewydd | 62.1 | 63.8 | 65.7 | 67.3 | 68.7 | 70.0 | 7.9 | 12.7 |
| Caerdydd | 147.6 | 156.3 | 165.9 | 175.5 | 185.4 | 195.3 | 47.7 | 32.3 |
| Cymru | 1,326.4 | 1,361.7 | 1,397.2 | 1,426.3 | 1,448.7 | 1,465.7 | 139.3 | 10.5 |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

## Amcanestyniadau Poblogaeth Aelwydydd Preifat

Mae Tabl 3 yn dangos yr amcanestyniadau poblogaeth aelwydydd preifat yn ôl awdurdod lleol rhwng 2014 a 2039. Ar lefel Cymru amcanestynir y bydd poblogaeth aelwydydd preifat yn cynyddu tua 148,000 (neu 5 y cant) i 3.19 miliwn rhwng 2014 a 2039. Yn ôl awdurdod lleol, amcanestynir y bydd gostyngiad ym Mlaenau Gwent a Phowys o 2014 ymlaen, yn Ynys Môn o 2024 ymlaen; ac yn Sir Benfro, Merthyr Tudful a Thorfaen o 2029 ymlaen. Amcanestynir cynnydd cyson yng Ngwynedd, Wrecsam, Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Casnewydd a Chaerdydd drwy gydol y cyfnod yr amcanestyniad. Rhwng 2034 a 2039 amcanestynir y bydd poblogaeth aelwydydd preifat yn lleihau ychydig mewn 2 o bob 3 awdurdod lleol yng Nghymru. Amcanestynir y bydd cynnydd canrannol mewn poblogaeth aelwydydd preifat yn ôl awdurdod lleol yn 9 y cant neu lai (neu'n negyddol) ar gyfer pob awdurdod lleol ac eithrio Caerdydd (gan godi 26 y cant) rhwng 2014 a 2039. Pan fo'r cynnydd canrannol yn uwch maent yn dueddol o gynrychioli cynnydd o 10-17,000 yn y boblogaeth aelwydydd preifat.

**Tabl 3: Maint Aelwydydd Cyfartalog Amcanestynedig yn seiliedig ar y Prif Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru, 2014-2039**

*Miloedd*

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 | Newid canrannol 2014 i 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 69.3 | 69.3 | 69.1 | 68.6 | 67.8 | 67.0 | -3.4 |
| Gwynedd | 118.3 | 120.0 | 122.0 | 124.1 | 126.1 | 127.9 | 8.1 |
| Conwy | 113.5 | 114.2 | 114.8 | 115.2 | 114.9 | 114.3 | 0.7 |
| Sir Ddinbych | 93.5 | 94.4 | 95.3 | 95.8 | 95.7 | 95.6 | 2.2 |
| Sir y Fflint | 152.9 | 154.2 | 155.2 | 155.5 | 155.0 | 154.0 | 0.7 |
| Wrecsam | 135.1 | 138.0 | 140.8 | 143.3 | 145.4 | 147.3 | 9.0 |
| Powys | 130.7 | 129.6 | 128.2 | 126.1 | 123.0 | 119.2 | -8.8 |
| Ceredigion | 70.9 | 72.0 | 73.3 | 74.6 | 75.9 | 77.1 | 8.7 |
| Sir Benfro | 121.7 | 122.1 | 122.2 | 121.9 | 120.8 | 119.2 | -2.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 182.3 | 183.7 | 185.0 | 185.8 | 185.6 | 185.0 | 1.5 |
| Abertawe | 236.6 | 240.9 | 245.5 | 249.9 | 253.6 | 256.9 | 8.6 |
| Castell-nedd Port Ta | 139.3 | 140.3 | 141.1 | 141.5 | 141.3 | 140.8 | 1.0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 138.9 | 140.8 | 142.7 | 144.0 | 144.8 | 145.1 | 4.5 |
| Bro Morgannwg | 125.6 | 126.2 | 126.7 | 126.8 | 126.1 | 125.1 | -0.4 |
| Rhondda Cynon Taf | 234.3 | 236.3 | 238.6 | 240.5 | 241.8 | 242.7 | 3.6 |
| Merthyr Tudful | 58.6 | 58.7 | 58.8 | 58.5 | 58.0 | 57.3 | -2.3 |
| Caerffili | 178.9 | 180.1 | 181.1 | 181.5 | 181.0 | 179.9 | 0.6 |
| Blaenau Gwent | 69.1 | 68.8 | 68.3 | 67.6 | 66.6 | 65.3 | -5.4 |
| Tor-faen | 90.9 | 91.3 | 91.6 | 91.4 | 90.8 | 89.9 | -1.1 |
| Sir Fynwy | 90.7 | 91.3 | 91.8 | 91.9 | 91.3 | 90.0 | -0.7 |
| Casnewydd | 145.2 | 147.5 | 150.1 | 152.5 | 154.5 | 156.3 | 7.6 |
| Caerdydd | 342.7 | 358.6 | 376.2 | 394.8 | 413.2 | 431.6 | 25.9 |
| Cymru | 3,039.0 | 3,078.1 | 3,118.3 | 3,151.8 | 3,173.2 | 3,187.4 | 4.9 |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

## Maint cyfartalog aelwydydd

Mae Maint Cyfartalog Aelwydydd, a fesurir ar sail nifer yr unigolion ym mhob aelwyd, yn darparu prif fesur o gyfansoddiad aelwydydd. Mae'n ddefnyddiol wrth gymharu data dros gyfnodau amser a rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Fe'i cyfrifir drwy rannu poblogaeth yr aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd.

Mae Tabl 4 yn dangos yr amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru yn gostwng o 2.29 person ym mhob aelwyd i 2.17.

Amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd ar ei uchaf ym Merthyr Tudful gyda chyfartaledd o 2.34, ac yno y gwelwyd y cyfartaledd uchaf yn 2014 hefyd.

Amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd ar ei isaf ym Mhowys gyda chyfartaledd o 2.07 ac Abertawe gyda chyfartaledd o 2.08.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dangos gostyngiad o rhwng 0.1 a 0.2 ym maint cyfartalog yr aelwydydd. Yr eithriadau yw Merthyr Tudful, Ceredigion a Sir Ddinbych sy'n gweld gostyngiad o tua 0.05.

**Tabl 4: Amcanestyniad o Faint Cyfartalog Aelwydydd sy'n seiliedig ar Brif Amcanestyniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer Cymru, 2014-2039**

*Person fesul aelwyd*

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 | 2034 | 2039 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2.24 | 2.22 | 2.19 | 2.17 | 2.15 | 2.14 |
| Gwynedd | 2.23 | 2.20 | 2.18 | 2.16 | 2.16 | 2.15 |
| Conwy | 2.19 | 2.16 | 2.15 | 2.13 | 2.12 | 2.11 |
| Sir Ddinbych | 2.27 | 2.26 | 2.25 | 2.24 | 2.23 | 2.23 |
| Sir y Fflint | 2.36 | 2.32 | 2.29 | 2.26 | 2.24 | 2.23 |
| Wrecsam | 2.32 | 2.29 | 2.26 | 2.23 | 2.21 | 2.19 |
| Powys | 2.22 | 2.17 | 2.13 | 2.11 | 2.09 | 2.07 |
| Ceredigion | 2.24 | 2.22 | 2.19 | 2.19 | 2.19 | 2.19 |
| Sir Benfro | 2.24 | 2.21 | 2.17 | 2.15 | 2.13 | 2.11 |
| Sir Gaerfyrddin | 2.28 | 2.26 | 2.24 | 2.22 | 2.20 | 2.19 |
| Abertawe | 2.24 | 2.20 | 2.17 | 2.14 | 2.11 | 2.08 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.29 | 2.27 | 2.25 | 2.23 | 2.22 | 2.20 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2.32 | 2.29 | 2.27 | 2.24 | 2.22 | 2.21 |
| Bro Morgannwg | 2.30 | 2.25 | 2.21 | 2.18 | 2.15 | 2.13 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.30 | 2.26 | 2.22 | 2.18 | 2.15 | 2.13 |
| Merthyr Tudful | 2.40 | 2.39 | 2.37 | 2.36 | 2.35 | 2.34 |
| Caerffili | 2.37 | 2.34 | 2.31 | 2.29 | 2.27 | 2.25 |
| Blaenau Gwent | 2.25 | 2.21 | 2.18 | 2.16 | 2.13 | 2.11 |
| Tor-faen | 2.33 | 2.30 | 2.27 | 2.25 | 2.23 | 2.21 |
| Sir Fynwy | 2.33 | 2.29 | 2.26 | 2.23 | 2.21 | 2.20 |
| Casnewydd | 2.34 | 2.31 | 2.29 | 2.27 | 2.25 | 2.23 |
| Caerdydd | 2.32 | 2.29 | 2.27 | 2.25 | 2.23 | 2.21 |
| Cymru | **2.29** | **2.26** | **2.23** | **2.21** | **2.19** | **2.17** |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

## Amcanestyniadau aelwydydd: Amrywiolion


Mae Siart 3 a Thabl 5 yn dangos amcanestyniadau o nifer yr aelwydydd ar gyfer y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2014 a 2029 gan ddefnyddio'r prif amcanestyniad, ynghyd â'r amrywiolion sydd wedi'u seilio ar boblogaeth uchel, poblogaeth isel, cyfartaledd mudo dros ddeng mlynedd, a thybiaeth na fydd unrhyw fudo.

Gan ddefnyddio'r amrywiolion uchaf ac isaf, amcanestynir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn cynyddu rhwng 1.40 ac 1.44 miliwn erbyn 2029, sy'n wahaniaeth o 37,000 o aelwydydd.

Gan ddefnyddio'r cyfartaledd mudo dros ddeng mlynedd, amcanestynir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu i 1.45 erbyn 2029, a chan dybio na fydd unrhyw fudo amcanestynir y bydd y nifer yn gostwng i 1.40 miliwn.

O ddefnyddio'r prif amcanestyniad disgwylir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu i ychydig o dan 1.43 miliwn erbyn 2029.

**Siart 3: Y prif amcanestyniad a'r pedwar amcanestyniad amrywiol**



Amcanestynir y bydd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd yn uwch wrth ddefnyddio'r amrywiolyn ar gyfer mudo dros ddeng mlynedd o'i gymharu â phrif amcanestyniad y rhan fwyaf o awdurdodau lleol; yr eithriadau yw Conwy, Ceredigion, Rhondda Cynon Taf a Sir Fynwy.

Amcanestynir y bydd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd yn is o 2,000 wrth ddefnyddio'r amrywiolyn ar gyfer poblogaeth uchel o'i gymharu â'r amrywiolyn ar gyfer mudo dros ddeng mlynedd yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Phowys. Mae'r amrywiolion yn llawer agosach yn yr awdurdodau lleol eraill.

**Tabl 5: Amcanestyniadau aelwydydd ar ganol-2014 a chanol-2029 gan awdurdod lleol ar gyfer Cymru fesul amrywiolyn**

*Miloedd*

| Ardal | Aelwydydd ar ganol 2014 | Aelwydydd fel ar canol 2029 yn seiliedig ar | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Prif amcanestyniad | Amrywiolyn uwch | Amrywiolynis | Amrywiolyn ymfudo cymedrig deng mlynedd | Amrywiolyn dim ymfudo |
| Ynys Môn | 31.0 | 31.6 | 31.9 | 31.1 | 32.1 | 31.3 |
| Gwynedd | 53.1 | 57.3 | 57.9 | 56.5 | 57.4 | 56.2 |
| Conwy | 52.0 | 54.1 | 54.6 | 53.2 | 54.0 | 50.5 |
| Sir Ddinbych | 41.2 | 42.8 | 43.3 | 42.1 | 43.9 | 41.1 |
| Sir y Fflint | 64.9 | 68.8 | 69.6 | 67.8 | 69.2 | 69.2 |
| Wrecsam | 58.3 | 64.2 | 64.9 | 63.2 | 66.0 | 62.0 |
| Powys | 59.0 | 59.8 | 60.4 | 58.9 | 62.4 | 59.3 |
| Ceredigion | 31.6 | 34.1 | 34.4 | 33.6 | 33.4 | 33.5 |
| Sir Benfro | 54.2 | 56.7 | 57.3 | 55.8 | 57.9 | 55.1 |
| Sir Gaerfyrddin | 79.9 | 83.8 | 84.7 | 82.5 | 86.7 | 80.4 |
| Abertawe | 105.6 | 117.0 | 118.1 | 115.3 | 118.1 | 113.8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 60.9 | 63.5 | 64.1 | 62.5 | 64.0 | 62.1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 59.8 | 64.2 | 64.9 | 63.2 | 65.2 | 61.9 |
| Bro Morgannwg | 54.7 | 58.1 | 58.7 | 57.3 | 59.7 | 58.1 |
| Rhondda Cynon Taf | 101.9 | 110.1 | 111.4 | 108.3 | 110.0 | 109.5 |
| Merthyr Tudful | 24.4 | 24.8 | 25.1 | 24.4 | 25.3 | 25.0 |
| Caerffili | 75.5 | 79.3 | 80.2 | 78.0 | 79.9 | 79.8 |
| Blaenau Gwent | 30.7 | 31.4 | 31.7 | 30.8 | 31.8 | 32.0 |
| Tor-faen | 39.1 | 40.7 | 41.1 | 40.0 | 40.9 | 41.0 |
| Sir Fynwy | 39.0 | 41.2 | 41.6 | 40.6 | 41.0 | 39.3 |
| Casnewydd | 62.1 | 67.3 | 68.1 | 66.2 | 68.3 | 67.4 |
| Caerdydd | 147.6 | 175.5 | 177.2 | 172.9 | 179.8 | 171.1 |
| Cymru | 1,326.4 | 1,426.3 | 1,441.3 | 1,404.4 | 1,447.2 | 1,399.6 |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

**Tabl 6: Aelwydydd Preifat Amcanestynedig canol-2014 a chanol-2029 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru fesul Amrywiolyn**

| Ardal | Aelwydydd cyfartaledd maint ar canol 2014 | Aelwydydd cyfartaledd maint canol 2029 yn seiliedig ar | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Prif amcanestyniad | Amrywiolyn uwch | Amrywiolynis | Amrywiolyn ymfudo cymedrig deng mlynedd | Amrywiolyn dim ymfudo |
| Ynys Môn | 2.24 | 2.17 | 2.18 | 2.16 | 2.18 | 2.19 |
| Gwynedd | 2.23 | 2.16 | 2.17 | 2.16 | 2.16 | 2.14 |
| Conwy | 2.19 | 2.13 | 2.13 | 2.12 | 2.13 | 2.15 |
| Sir Ddinbych | 2.27 | 2.24 | 2.24 | 2.23 | 2.24 | 2.27 |
| Sir y Fflint | 2.36 | 2.26 | 2.26 | 2.25 | 2.26 | 2.26 |
| Wrecsam | 2.32 | 2.23 | 2.23 | 2.22 | 2.24 | 2.22 |
| Powys | 2.22 | 2.11 | 2.11 | 2.10 | 2.12 | 2.14 |
| Ceredigion | 2.24 | 2.19 | 2.19 | 2.18 | 2.17 | 2.19 |
| Sir Benfro | 2.24 | 2.15 | 2.15 | 2.14 | 2.16 | 2.17 |
| Sir Gaerfyrddin | 2.28 | 2.22 | 2.22 | 2.21 | 2.23 | 2.23 |
| Abertawe | 2.24 | 2.14 | 2.14 | 2.13 | 2.14 | 2.11 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2.29 | 2.23 | 2.23 | 2.22 | 2.23 | 2.23 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2.32 | 2.24 | 2.25 | 2.24 | 2.25 | 2.25 |
| Bro Morgannwg | 2.30 | 2.18 | 2.18 | 2.17 | 2.19 | 2.18 |
| Rhondda Cynon Taf | 2.30 | 2.18 | 2.19 | 2.18 | 2.18 | 2.17 |
| Merthyr Tudful | 2.40 | 2.36 | 2.36 | 2.35 | 2.37 | 2.37 |
| Caerffili | 2.37 | 2.29 | 2.29 | 2.28 | 2.29 | 2.29 |
| Blaenau Gwent | 2.25 | 2.16 | 2.16 | 2.15 | 2.16 | 2.17 |
| Tor-faen | 2.33 | 2.25 | 2.25 | 2.24 | 2.26 | 2.26 |
| Sir Fynwy | 2.33 | 2.23 | 2.23 | 2.22 | 2.24 | 2.25 |
| Casnewydd | 2.34 | 2.27 | 2.27 | 2.26 | 2.28 | 2.25 |
| Caerdydd | 2.32 | 2.25 | 2.26 | 2.24 | 2.25 | 2.20 |
| Cymru | 2.29 | 2.21 | 2.21 | 2.20 | 2.21 | 2.21 |

Noder: gan fod y ffigurau wedi'u

Mae Tabl 6 yn dangos effaith amrywolion amcanestyniadau poblogaeth ar amcanestyniadau maint cyfartalog aelwydydd yn ôl awdurdod lleol yn 2029, a ddangosir i ddau le degol er eglurder. Fel y gellid disgwyl mae hyn yn dangos bod amcanestyniadau maint cyfartalog aelwydydd ar gyfer pob awdurdod lleol yn uwch pan yn seiliedig ar yr amrywiolyn ffrwythlondeb a disgwyliad oes uchel nag ar sail yr amrywiolyn ffrwythlondeb a disgwyliad oes isel ac amrywiad.

Ar gyfer yr amrywiolyn mudo cyfartalog deng-mlynedd amcanestynir y bydd y maint cyfartalog aelwydydd ychydig yn uwch ar lefel Cymru nag ar sail y prif amcanestyniad yn 2029. Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn seiliedig ar yr amrywiolyn mudo cyfartalog deng-mlynedd yn uwch; yn enwedig yn Ynys Môn, Powys, Sir Benfro, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Tor-faen, a Chasnewydd. Amcanestynir y bydd yn is ar sail yr amrywiolyn mudo cyfartalog deng-mlynedd ar gyfer y gweddill, gan gynnwys Ceredigion, Rhondda Cynon Taf, Gwynedd, a Chaerdydd; gyda'r gostyngiad mwyaf yn digwydd yng Ngheredigion.

Ar gyfer yr amrywiolyn dim mudo amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn debyg ar lefel Cymru yn 2029 i'r un ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth uchel. Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fodd bynnag, byddai maint cyfartalog aelwydydd yn uwch yn seiliedig ar yr amrywiolyn dim mudo. I eraill, yn enwedig yng Nghaerdydd, Abertawe, Gwynedd, Casnewydd a Wrecsam, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf byddai maint cyfartalog aelwydydd yn is yn 2029 yn seiliedig ar y amrywiolyn dim mudo.

Ar gyfer yr amrywiolyn dim mudo amcanestynir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn debyg ar lefel Cymru yn 2029 i'r un ar gyfer yr amrywiolyn poblogaeth uchel. Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fodd bynnag, byddai maint cyfartalog aelwydydd yn uwch yn seiliedig ar yr amrywiolyn dim mudo. I eraill, yn enwedig yng Nghaerdydd, Abertawe, Gwynedd, Casnewydd a Wrecsam, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf byddai maint cyfartalog aelwydydd yn is yn 2029 yn seiliedig ar y amrywiolyn dim mudo.

## Cymharu ag amcanestyniadau aelwydydd blaenorol

Mae Tabl 7 yn dangos yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 a'r rhai cynharach. Ar ôl yr amcanestyniadau seiliedig ar 2008, mae’r amcanestyniadau diweddarach yn is, er bod y gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 a’r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 yn fach (mae’r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 yn llai na 2 y cant yn is na’r amcanestyniadau seiliedig ar 2011).

**Tabl 7: Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Cymru**

miloedd

| | 2014 | 2019 | 2024 | 2029 (r) |
|---|---|---|---|---|
| 2003- amcanestyniadau seiliedig | 1,368 | 1,423 | 1,465 (r) | - |
| 2006- amcanestyniadau seiliedig | 1,387 | 1,457 | 1,519 (r) | 1,571 (r) |
| 2008- amcanestyniadau seiliedig | 1,381 | 1,455 | 1,522 (r) | 1,579 (r) |
| 2011- amcanestyniadau seiliedig | 1,331 (r) | 1,377 | 1,420 (r) | 1,455 (r) |
| 2014- amcanestyniadau seiliedig | 1,326 | 1,362 | 1,397 (r) | 1,426 (r) |

*Ffynhonnell: StatsCymru, amcanestyniadau aelwydydd cenedlaethol*

(r) Diwygiedig 24 Ionawr 2018

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Yn ogystal â'r wybodaeth isod, mae gwybodaeth bellach sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn darparu amcangyfrif o nifer yr aelwydydd a nifer y bobl sy'n byw ynddynt ac fe'u seilir ar amcanestyniadau poblogaeth ac ystod o ragdybiaethau ynghylch cyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Seilir y rhagdybiaethau ar dueddiadau blaenorol.

Mae'r amcanestyniadau'n amcangyfrif nifer yr aelwydydd ac yn rhagdybio bod tueddiadau blaenorol ym maes genedigaethau, marwolaethau, a mudo (sef, pobl yn symud i mewn i ardal neu allan ohoni) yn parhau. Nid yw amcanestyniadau a gynhyrchir fel hyn yn caniatáu ar gyfer effeithiau polisïau llywodraeth leol neu'r llywodraeth ganolog ar lefelau'r boblogaeth a chyfansoddiad aelwydydd yn y dyfodol, nac ar gyfer newidiadau yn ffordd y boblogaeth o fyw. Hynny yw, nid rhagolygon a seilir ar bolisi yw'r amcanestyniadau aelwydydd hyn ar gyfer awdurdodau lleol; yn hytrach maent yn nodi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd os bydd y tueddiadau presennol yn parhau.

Mae'r amcanestyniadau hyn yn defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol Cymru a oedd yn defnyddio 2011 fel blwyddyn sylfaen (rhoddir manylion y rhain yn nes ymlaen yn yr adran hon).

Gall newidiadau yn yr economi ac yn ffordd y boblogaeth o fyw effeithio ar gydrannu newid mewn aelwydydd a'r boblogaeth. Mae'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig  amcanestyniadau awdurdodau lleol yn cael ei fodelu trwy gynhyrchu amcanestyniadau amrywiol ynghyd â'r prif amcanestyniadau aelwydydd. Mae'r amcanestyniadau amrywiol hyn yn dangos sut y gallai amrywiadau posibl yn y rhagdybiaethau ym maes ffrwythlondeb, marwolaeth a mudo effeithio ar yr amcanestyniadau.

### Perthnasedd

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn bwysig o safbwynt datblygu polisi, cynllunio,  a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae galw uchel am amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer ystod o ddibenion gan gynnwys:

- cynllunio gwasanaethau ac amcangyfrif yr angen yn y dyfodol ar lefel genedlaethol a lleol, (er enghraifft, tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol
- datblygu polisi
- cyngor i'r Gweinidogion
- llywio trafodaethau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a'r tu hwnt
- proffilio daearyddol, cymariaethau, a meincnodi
- dadansoddi  carfannau poblogaeth a thueddiadau mudo
- cefnogi asesiadau o lesiant sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ystod eang o ddefnyddwyr data aelwydydd o'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, elusennau a chyrff y sector gwirfoddol, adrannau eraill o'r llywodraeth, myfyrwyr, ymchwilwyr, prifysgolion, dinasyddion unigol, a chwmnïau preifat. Yn arbennig, mae lefel uchel o ddiddordeb mewn amcanestyniadau ar lefel yr awdurdodau lleol. Mae angen i'r rhai sy'n cynllunio at y dyfodol ym maes darparu gwasanaethau a helpu i lunio polisïau cynaliadwy ystyried y boblogaeth a'r aelwydydd y maent yn byw ynddynt. Gall amcanestyniadau aelwydydd nodi tueddiadau sy'n llywio cyd-destun datblygu polisi yn y dyfodol.

Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 y Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015. Un o elfennau allweddol y Ddeddf yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddod ynghyd er mwyn paratoi Cynllun Datblygu Strategol sy'n mynd ymhellach na ffiniau'r awdurdodau lleol, gan gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach a chan ymdrin â materion ehangach na materion lleol yn unig. Bydd tystiolaeth i gefnogi paratoi cynlluniau'n cynnwys ystadegau demograffig ac amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd y bydd angen eu hystyried mewn cyd-destun strategol. Bydd mynegiannau o amcanestyniadau yn y dyfodol yn chwarae rôl wrth lywio cynlluniau strategol.

Rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) sy'n mesur sut y mae polisïau wedi perfformio a pha gamau gweithredu unioni y gallai fod eu hangen. Mae gan yr AMR rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y CDLl yn cael ei gadw'n gyfoes. Gall y cynnydd a welir gyda'r AMR fod yn berthnasol i lefelau'r boblogaeth a dosbarthiad y boblogaeth yn y dyfodol, proffiliau demograffig, a phrisiau tai. Bydd y canlyniadau hyn a'u perthynas ag amcanion allweddol y cynllun yn rhan o'r AMR.

## Cywirdeb

Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar *Allbynnau Ystadegol ar Amcangyfrifon ac Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd* o Chwefror i Fai 2016.

Cynigiodd Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio ag ONS ac â Gweinyddiaethau eraill y DU i gysoni'r flwyddyn sylfaen ar gyfer amcanestyniadau is-genedlaethol a chenedlaethol lle bo modd. Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad a oeddent yn cytuno â'r dull gweithredu hwn. Cytunodd pawb â dull UKSA. Er hynny yn sgil yr ymgynghoriad ac yn unol ag anghenion defnyddwyr, nodwyd y câi'r amcanestyniadau yng Nghymru eu gwneud bob tair blynedd, tra byddai ONS yn cynnal amcanestyniadau cenedlaethol bob dwy flynedd.

Mae amcanestyniadau'r awdurdodau lleol yn defnyddio data gweinyddol ONS. Cynhyrchir amcangyfrifon o'r boblogaeth gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig sef dull cydrannau'r garfan. Mae hyn yn cynnwys cyfuno gwybodaeth o nifer o ffynonellau data gan gynnwys y cyfrifiad blaenorol; data arolygon, a chofrestri gweinyddol. Y ffynonellau data a ddefnyddir yw'r gorau sydd ar gael ar sail gyson yn genedlaethol i lawr i lefel yr awdurdodau lleol, ond mae'r amcangyfrifon yn ddarostyngedig i'r cwmpas a'r gwallau sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau. Bernir bod gwybodaeth o gofrestri gweinyddol megis nifer y genedigaethau a marwolaethau yn ddibynadwy iawn.

Dyma'r ddolen i adroddiadau ONS ar wybodaeth am ansawdd a methodoleg ar gyfer thema'r boblogaeth.

Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i lunio'r data ar gyfer yr allbwn a enwir ac ar ansawdd y data hwnnw. Bwriedir iddynt roi gwybodaeth am gryfderau a chyfyngiadau'r data er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud ar briodoldeb y data. Mae ONS yn gyfrifol am sicrhau ansawdd data gweinyddol i'w ddefnyddio mewn ystadegau swyddogol. Er hynny, fel defnyddiwr a chynhyrchydd allweddol ystadegau bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y prosesau'n briodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ansawdd sy'n berthnasol i'r amcanestyniadau hyn, a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag ONS i ystyried sut y gellid gwneud gwelliannau yn y dyfodol.

Bu'r data gweinyddol a ddefnyddir yn yr amcanestyniadau yn destun gwiriadau mewnol ar gyfer cysondeb a hygrededd gan Lywodraeth Cymru.

Seilir ystadegau am enedigaethau ar nifer y genedigaethau mewn blwyddyn benodedig. Maent yn cyflwyno data am enedigaethau sy'n digwydd ac sydd wedyn yn cael eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr. Seilir yr ystadegau ar yr wybodaeth a gesglir adeg cofrestru genedigaeth. Mae data blynyddol yn cael eu rhyddhau mewn cyfres o becynnau â thema benodol, a hynny rhwng Gorffennaf a Rhagfyr fel rheol. Mae ystadegau blynyddol am enedigaethau ar gyfer y DU a'r gwledydd sy'n rhan ohoni'n cael eu cyhoeddi yn 'vital statistics: population and health reference tables'.

Seilir ystadegau ONS am enedigaethau ar gofrestriadau a ddarperir gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO). Mae'r data'n gofnod cyfreithiol, ac o'r herwydd y data hyn yw'r ffynhonnell ddata orau a mwyaf cyflawn sydd ar gael.

Fel rhan o'r broses o gofnodi genedigaethau, cyn i ddata gael eu cyflwyno trwy'r system Gofrestru Ar-lein ar gyfer genedigaethau a marwolaethau (RON), mae'r cofrestrydd yn gofyn i'r hysbysydd gadarnhau bod yr holl ddata a gofnodir yn gywir. Mae'r cofrestrydd wedyn yn gallu cywiro unrhyw wallau. Mae rhai gwiriadau dilysrwydd wedi'u hymgorffori yn RON i helpu'r cofrestrydd gyda'r broses hon. Credir gan amlaf fod yr wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru genedigaeth yn gywir gan y gallai darparu gwybodaeth ffug olygu bod yr hysbysydd yn gallu cael ei erlyn.

Pan ddaw cofrestriadau am enedigaethau i law ONS, mae nifer o wiriadau'n cael eu cynnal ar y cofnodion er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys. Cynhelir gwiriadau amlach ar y cofnodion hynny sydd â gwerthoedd eithafol ar gyfer y prif newidynnau (megis oedran y fam ac oedran y tad) gan fod i'r rhain fwy o effaith ar dablau a gyhoeddir. Codir unrhyw gofnodion genedigaethau sy'n ymddangos yn amheus gyda'r GRO yn fisol ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae unrhyw newidiadau a gynigir i gofnodi a chasglu data am gofrestriadau genedigaethau yn cael eu rheoli'n ofalus ac yn cynnwys ONS, GRO, a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw oblygiadau ar gyfer ystadegau genedigaethau'n cael eu cymryd i ystyriaeth yn ofalus.

Oherwydd newidiadau a wnaed i Ddeddf y Boblogaeth (Ystadegau) 1938 mae data gwell am blant blaenorol wedi'u casglu ers Mai 2012. Bydd y newidiadau'n gwella cywirdeb ystadegau genedigaethau yn ôl trefn genedigaethau ac yn bwydo i mewn i'r amcangyfrifon ar gyfer maint teuluoedd a mesurau o ffrwythlondeb. Mae ONS yn cynnal gwiriadau chwarterol ar set ddata enedigaethau.

Ers i Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau (1836) ddod i rym mae'n ofyniad cyfreithiol i bob marwolaeth gael ei chofrestru ers 1 Gorffennaf 1837. Seilir ystadegau marwolaethau Cymru a Lloegr ar yr wybodaeth a gesglir pan fydd marwolaeth yn digwydd ac yn cael ei chofrestru. Mae'r ffigurau cyhoeddedig yn cynrychioli nifer y marwolaethau sydd wedi'u cofrestru mewn cyfnod cyfeirio.

Mae ystadegau blynyddol am farwolaethau'n ymdrin â Chymru a Lloegr. Mae tabl data blynyddol o gyfresi data yn "vital statistics: population and health reference tables' yn darparu ystod o ystadegau marwolaethau ar gyfer y DU a'r gwledydd sy'n rhan ohoni, gyda rhai mesurau ar gael yn ôl i 1838.

Mae darnau dyddiol o gofrestriadau marwolaethau o RON yn dod i law yn ONS ac wedyn yn destun cyfres o brosesau dilysu awtomatig sy'n tanlinellu unrhyw anghysondebau. Mae'r Metadata Marwolaethau'n darparu gwybodaeth fanwl am gasglu, prosesu, ac ansawdd data am farwolaethau yng Nghymru a Lloegr.

Mae gwiriadau cysondeb mewnol wedyn yn cael eu cynnal i ddileu unrhyw wallau a wneir wrth gofnodi marwolaethau, ac i sicrhau bod y set ddata flynyddol yn gyflawn. Cyn y gellir defnyddio'r data at ddibenion dadansoddi maent yn destun rhagor o wiriadau a phrosesau dilysrwydd, gan gynnwys cynnal cyfrifiadau amlder ar ystod o newidynnau, gwirio hygrededd cyfuniadau o feysydd a gwirio anghysondebau. Mae cofnodion amheus yn cael eu hatgyfeirio yn ôl i swyddfeydd cofrestru. Mae unrhyw bryderon ynghylch achos marwolaeth yn cael eu hatgyfeirio at Gynghorydd Meddygol neu Epidemiolegydd Meddygol.

Mae amcangyfrifon mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor ar lefel awdurdod lleol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael eu cynhyrchu gan ONS, NRS, ac NISRA at ddibenion cynhyrchu ystod o amcangyfrifon o'r boblogaeth. Cyflwynir y data fel:

- maint mewnfudo ac allfudo rhyngwladol hirdymor – sef nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU neu'n ymadael â'r DU am gyfnod o 12 mis o leiaf.
- Maint mudo i mewn ac allan yn fewnol - amcangyfrif o fudo yn y DU (llifoedd trawsffiniol rhwng pob un o'r gwledydd sy'n rhan o'r DU, yn ogystal â mudo rhwng yr awdurdodau lleol).
- Cyfraddau trosiant mudo rhyngwladol a mewnol hirdymor (megis maint y symud rhwng mudo mewnol ac allanol) i bob per 1,000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfraddau trosiant all-lif a mewnlif rhyngwladol hirdymor i bob 1,000 (o gyfanswm y boblogaeth)
- Cyfanswm y mudo i bob 1,000 (swm y mudo mewnol a rhyngwladol). Mae hyn yn nodi'n gliriach yr ardaloedd â lefelau uchel o drosiant yn y boblogaeth

Mae amcangyfrifon am mudo rhyngwladol ar lefel awdurdodau lleol i Gymru a Lloegr yn cael eu cynhyrchu gan ONS. Mae'r data yn cynnwys meintiau mewnfudo rhyngwladol hirdymor, sef nifer y bobl a arhosodd yng Nghymru a Lloegr am gyfnod rhwng 3 a 12 mis.

Bydd cwmpas mudwyr rhyngwladol sy'n ymuno â ffynhonnell weinyddol yn dibynnu ar ddiben y system weinyddol benodol ac mae'n anochel y bydd yn amrywio rhwng ffynonellau.

## Amseroldeb a Phrydlondeb

Fel rhan o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar allbynnau ystadegol ar amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd cynigiwyd amserlen ar gyfer amcanestyniadau'r 22 o awdurdodau lleol a'r tri awdurdod parciau cenedlaethol. Gofynnwyd i'r ymatebwyr:

- A ydych yn cytuno â'r amserlen hon?
- Beth yw'r anghenion yn y dyfodol o ran amcanestyniadau?
- Pa mor aml y dylent gael eu cynhyrchu?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn y dylai amcanestyniadau is-genedlaethol o'r boblogaeth ac amcanestyniadau aelwydydd gael eu cynhyrchu unwaith bob tair blynedd.

## Hygyrchedd ac Eglurdeb

Fel rhan o'r gwaith o asesu cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Ystadegau Swyddogol ar gyfer Amcangyfrifon ac Amcanestyniadau Poblogaeth Cymru a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru a wnaed gan UKSA (Adroddiad Asesu 310 Gorffennaf 2015), gofynnodd gofyniad 7a fod adroddiadau'r dyfodol ar yr amcanestyniadau'n cael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n ddealladwy i ystod eang o ddefnyddwyr.

Roedd testun Saesneg datganiad amcanestyniadau 2015 wedi cael ei asesu o safbwynt ei eglurder gan aelod staff â Diploma mewn Saesneg Clir a ddyfarnwyd gan yr Ymgyrch Saesneg Clir, sy'n golygu ei fod yn gymwys i asesu a fyddai dogfen yn cael Nod Crisial (safon y diwydiant ar gyfer hygyrchedd).

## Cymaroldeb a Chydlyniaeth

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd yn defnyddio dull gwahanol i'r dulliau a ddefnyddir i gynhyrchu amcanestyniadau aelwydydd i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Seilir cyfanswm nifer yr aelwydydd sy'n cael eu rhagamcanu ar gyfer Cymru ar swm y ffigurau ar gyfer pob awdurdod lleol.

Ceir manylion canllawiau ar y gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer pedair gwlad y DU mewn adroddiad.

Seilir yr amcanestyniadau aelwydydd ar Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Seilir y rhain yn eu tro ar amcanestyniadau o'r boblogaeth, genedigaethau, marwolaethau a mudo a gynhyrchir gan ONS. Mae rhagdybiaethau am ffurf aelwydydd yn y dyfodol yn cael eu cymhwyso i ganlyniadau'r amcanestyniadau hyn o'r boblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cael eu datblygu o dueddiadau blaenorol ar sail ffigurau cyfrifiadau 2001 a 2011 a gynhyrchwyd gan ONS.

Defnyddir diffiniadau safonol o aelwydydd a sefydliad cymunedol ar gyfer yr amcanestyniadau.

*Aelwydydd*

Diffinnir aelwyd fel un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (ddim o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad gyda threfniadau byw cyffredin - sef, rhannu naill ai ystafell fyw neu ystafell eistedd am o leiaf un pryd y dydd.

Sefydliad cymunedol

Diffinnir sefydliad cymunedol fel sefydliad sy'n darparu llety preswyl a reolir. Ystyr "a reolir" yw goruchwyliaeth amser llawn neu ran-amser ar y llety. Yn y mwyafrif o achosion (er enghraifft, carchardai, ysbytai mawr, gwestai) mae modd nodi sefydliadau cymunedol yn hawdd. Er hynny, gall anawsterau godi gyda gwestai bach, tŷ llety a llety gwarchod. Mae rheolau arbennig yn gymwys yn yr achosion hyn:

Mae gwestai bach a thai gwarchod yn cael eu trin fel sefydliadau cymunedol os oes ynddynt le i 10 neu ragor o westeion, heb gynnwys y perchennog/rheolwr a'i deulu.

Mae tai gwarchod yn cael eu trin fel sefydliad cymunedol os yw llai na hanner y preswylwyr yn meddu ar eu cyfleusterau eu hunain ar gyfer coginio. Os yw hanner neu fwy'n meddu ar eu cyfleusterau ar gyfer coginio (ni waeth beth yw'r defnydd arnynt) mae'r sefydliad cyfan yn cael ei drin fel aelwydydd ar wahân.

## Methodoleg

Mae'r amcanestyniadau'n defnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer Awdurdodau Lleol a oedd yn defnyddio 2011 fel blwyddyn sylfaen.

Mae Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dull demograffig sefydledig sef dull cydrannau'r garfan. Sef:

- cymryd amcangyfrif y flwyddyn ddiweddaraf o'r boblogaeth;
- tynnu allan grwpiau arbennig o'r boblogaeth;
- ychwanegu blwyddyn at oedran pob person;
- ychwanegu genedigaethau a thynnu marwolaethau;
- caniatáu ar gyfer mewnfudo ac allfudo;
- ychwanegu'r grwpiau arbennig o'r boblogaeth yn ôl i mewn.

Mae'r fethodoleg ar gyfer yr amcanestyniadau hyn wedi cael ei datblygu gan gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol a defnyddwyr allweddol yng Nghymru trwy Weithgor Amcanestyniadau Is-genedlaethol Cymru (WASP). Mae'r gweithgor hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd wrth baratoi'r amcanestyniadau a bu'n fforwm ar gyfer trafodion technegol ar y fethodoleg a'r data sylfaenol a ddefnyddir. Mae aelodau WASP yn cynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol sydd â gwybodaeth am ddata demograffig ac amcanestyniadau poblogaeth a phrofiad ohonynt.

Mae diweddariadau rheolaidd wedi'u darparu hefyd yng nghyfarfodydd llawn Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (WSLC). Ceir gwybodaeth bellach am WSLC, gan gynnwys ei aelodaeth yn: PCYC

Seilir y rhagdybiaethau fel rheol ar y tueddiadau yn ystod y 5 mlynedd ddiweddaraf, ac mae'r amcanestyniadau'n nodi beth allai ddigwydd os bydd y tueddiadau hyn yn parhau. Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r rhagdybiaethau marwolaeth ar lefel grŵp oedran pum mlynedd, er

mwyn cymryd i ystyriaeth gwelliannau mewn cyfraddau marwolaethau yn y dyfodol. Mae'r addasiadau wedi'u tynnu o'r amcanestyniadau cenedlaethol o'r boblogaeth sydd wedi'u cynhyrchu gan ONS. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gwelliant mewn cyfraddau marwolaethau, a thrwy hynny ddisgwyliad oes hwy. Tybir y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol.

Seilir rhagdybiaethau ffrwythlondeb ar dueddiadau'r blynyddoedd diweddaraf lle'r duedd fu cyfraddau ychydig yn uwch yn achos menywod yn eu tridegau sy'n dynodi gohirio bod yn fam. Mae'r amcanestyniadau'n nodi beth allai ddigwydd yn y dyfodol os bydd y tueddiadau hyn yn parhau.

Mae addasiadau wedi'u gwneud i'r rhagdybiaethau ffrwythlondeb ar lefel oedran pum mlynedd er mwyn cymryd i ystyriaeth batrymau tebygol yn y dyfodol o safbwynt oedran y fam. Mae'r addasiadau hyn wedi'u tynnu o'r amcanestyniadau poblogaeth sydd wedi'u cynhyrchu gan ONS.

Seilir yr holl ffigurau sy'n ymwneud â phoblogaethau oedran weithio ac oedran pensiwn ar oedran pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y flwyddyn o dan sylw. Rhwng 2010 a 2020, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn newid o 65 oed yn achos dynion a 60 oed yn achos menywod, i 65 oed i'r ddau ryw. Rhwng 2024 a 2046, bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn cynyddu mewn tri cham o 65 oed i 68 oed i'r ddau ryw.

Mae canllawiau ar y fethodoleg fanwl a ddefnyddir i gynhyrchu Amcanestyniadau'r Awdurdodau Lleol o'r Boblogaeth wedi'u cyhoeddi mewn adroddiad technegol.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ddibynadwyedd, ansawdd, a gwerth cyhoeddus.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan adain reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n bodloni'r safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw cynnal cydymffurfiaeth â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os bydd gennym bryderon ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws ystadegau gwladol ar unrhyw adeg pan na chynhelir y safonau uchaf, ac adfer y statws pan fydd y safonau yn dderbyniol eto.

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, ffyniannus, cydnerth, iachach sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016 ac er nad oes unrhyw ddangosyddion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r nifer neu'r math o aelwydydd, mae dangosyddion 10, 18, 19, a 34 yn cyfleu'r defnydd o aelwydydd (yn hytrach na'r boblogaeth) fel enwadur.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – Sut mae mesur cynnydd cenedl? – Dangosyddion Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf yn cyfleu ymrwymiad i Weinidogion Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol* yn cynnwys:

rhagweld tueddiadau yn llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru;

Unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddi gysylltiedig sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

Mae'n debygol y câi amcanestyniadau aelwydydd eu defnyddio fel rhan o adroddiad *Tueddiadau'r Dyfodol*

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .

Gallai'r ystadegau a gynhwysir yn y datganiad hwn ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau o lesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Allbynnau cysylltiedig

Mae data pellach am boblogaeth Cymru gan gynnwys Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Cymru ar gael trwy wefan Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyhoeddir Amcanestyniadau Cenedlaethol o'r Boblogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r gwledydd sy'n rhan ohoni, gan gynnwys Cymru, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn defnyddio 2014 fel blwyddyn sylfaen.

Cyhoeddir Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol), Swyddfa Gofrestru Genedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon yn eu trefn. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn:

Lloegr

Gov.UK: Household porjections (Saesneg yn unig)

Yr Alban

National Records of Scotland: Household projections (Saesneg yn unig)

Gogledd Iwerddon

Northern Ireland Statistics and Research Agency: Household proejctions (Saesneg yn unig)

## Manylion Pellach

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:
http://llyw.cymru/statistics-and-research/household-projections/?lang=cy

Mae ystadegau aelwydydd yn ôl awdurdod lleol a math o aelwyd i'w cael yn StatsCymru.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu dros e-bost i ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

OGL